**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**National Assembly for Wales**
Constitutional and Legislative Affairs Committee

Rebecca Evans AC
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Llywodraeth Cymru

6 Chwefror 2019

Annwyl Rebecca

**Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019**

Trafododd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ddatganiad ysgrifenedig Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd o dan Reol Sefydlog 30C ar gyfer y rheoliadau a enwir uchod, yn ei gyfarfod ar 5 Chwefror 2019.

Hoffwn dynnu eich sylw at bryderon sydd gennym ynghylch y datganiad(au) ysgrifenedig.

Gosododd Llywodraeth Cymru ddatganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn ar 18 Rhagfyr 2018. Hefyd, gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol, o dan Reol Sefydlog 30A. Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol a'r datganiad ysgrifenedig yn ei gyfarfod ar 14 Ionawr 2019.

Rydym yn awr yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi gosod y datganiad ysgrifenedig pellach hwn mewn perthynas â'r un Rheoliadau. Byddem yn ddiolchgar i gael eglurhad ynghylch pryd a pham y tynnwyd y datganiad gwreiddiol yn ôl, a pham na chafodd ail ddatganiad ei osod wedyn tan 25 Ionawr 2019.

Hoffwn dynnu eich sylw hefyd at nifer o bryderon sydd gennym ynghylch y Rheoliadau.

Mae'r datganiad ysgrifenedig yn rhestru'r ddeddfwriaeth sy'n cael ei diwygio gan y Rheoliadau, ond nid yw'n nodi pa rai o bwerau deddfwriaethol y Cynulliad neu bwerau gweithredol Gweinidogion Cymru y mae'r offeryn hwn yn effeithio arnynt. Mae'r datganiad ysgrifenedig yn dweud bod y Rheoliadau yn galluogi

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565

swyddogaethau i gael eu harfer gan Swyddfa'r Cabinet mewn perthynas ag Awdurdodau Datganoledig Cymru, naill ai gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru neu a arferir ar yr un pryd gyda Gweinidogion Cymru. Nid yw'r datganiad ysgrifenedig, fodd bynnag, yn nodi a yw hyn yn ymwneud â phob swyddogaeth, a yw'r Rheoliadau yn ailddatgan y trefniadau presennol, neu a yw'r rhain yn cynrychioli trefniadau newydd o ran sut y caiff swyddogaethau eu harfer mewn perthynas ag Awdurdodau Datganoledig Cymru. Byddem yn falch o gael eglurhad ar y mater hwn.

Yn ogystal, mae'r datganiad ysgrifenedig yn nodi'n gywir y goblygiadau ar gyfer cymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol yn y dyfodol, pan fydd angen cydsyniad Gweinidog y Goron o dan Atodlen 7B o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i wneud unrhyw newidiadau yn y meysydd hyn. Fodd bynnag, os yw'r rhain yn drefniadau newydd, nid yw'n glir pam na wnaeth Llywodraeth Cymru osod Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol fel y gwnaeth, ym mis Rhagfyr 2018, mewn perthynas â newidiadau y mae'r Rheoliadau hyn yn eu gwneud i Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Byddwn yn ddiolchgar o gael ymateb ac eglurhad ar y materion a godwyd uchod erbyn 14 Chwefror 2019.

Yn gywir

**Mick Antoniw**
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.